

Ein Bro - Ein Dyfodol



Drafft Ymgynghori

www.valeofglamorgan.gov.uk/amser-siarad

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Am Ein Cynllun	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Canllaw cyflym	7
Ein Bro – Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	9
Beth wyddom ni am y Fro – Ein Hasesiad Llesiant	10
Datblygu'r cynllun	12
Creu'r cysylltiadau	13
Cyflawni ein hamcanion	14
Amcan 1: Galluogi pobl i ymwneud, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol	15
Amcan 2: Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anhydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd	23
Amcan 3: Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant	31
Amcan 4: Gwarchod, cyfoethogi a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd	38
Gawn ni Air	47
Monitro ein perfformiad	49

Cyflwyniad

Mae 'Ein Bro Ein Dyfodol' represents yn newid arwyddocaol yn y modd yr ydym ni ymro Morgannwg yn gweithio gyda'n gilydd i wella llesiant lleol. Datganiad yw'r cynllun hwn o ymrwymiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i wella llesiant lleol yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Trwy'r cynllun hwn oll rydym wedi gosod allan y camau cyntaf a gymerwn i gyflawni ein gweledigaeth am y Fro yn 2050.

Y weledigaeth yr ydym yn ei rhannu am Fro Morgannwg yn 2050 yw:

Y bydd gan bawb deimlad o berthyn ac o ymfalchïo yn Fro, gan gydnabod eu cyfraniad i lwyddiant y rhanbarth ac i Gymru. Byddwn yn deall ein heffaith ar yr amgylchedd, lleol a byd-eang, a bydd gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau yn gweithio ynghyd i amddiffyn yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol er lles y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Fro yn ardal o optimistiaeth a dyheadau, lle byddwn yn gweithio ynghyd i sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu huchelgais unigol a'u bod yn cael eu cefnogi trwy'r blynyddoedd cynnar, eu plentyndod a'u llencyndod. Byddwn yn cydnabod ac yn parchu nodweddion cadarnhaol ein poblogaeth sy'n heneiddio, a byddwn yn rhoi gwerth ar gyfraniad pobl hŷn i fywiogrwydd a gwynnwch y Fro. Bydd trigolion o bob oed a chefnidir yn cymryd rhan mewn bywyd cymunedol, gan helpu i lunio gwasanaethau a bod yn falch o'r Ardal lle maent yn byw. Bydd gweithio ynghyd er lles y genhedlaeth hon a rhai'r dyfodol fydd y norm, a bydd gan drigolion hyder yn y gwasanaethau maent yn eu derbyn ac yn eu gallu i beri newid er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Bydd anghydraddoldeb Addysgol ac iechyd yn perthyn i'r gorffennol wrth i ni weithio ynghyd am Fro lle gall pawb gael y gwasanaethau a'r gefnogaeth maent eu hangen i fyw bywydau iach, diogel a chyflawn.

Yn ganolog i'r cynllun hwn mae'r gydnabyddiaeth fod angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gweithio, gwrando ar ein trigolion a rhanddeiliaid eraill a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael fel sail o wybodaeth i ddarparu gwasanaethau lleol yn awr ac at y dyfodol. Datblygwyd y cynllun yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Darn unigryw o ddeddfwriaeth yw hon sy'n mynnu ein bod yn ***“gweithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau yr atebir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwythau’.***

Mae'r cynllun hwn yn rhoi manylion am y pedwar amcan llesiant fydd yn fframwaith i'n gweithgareddau cydweithredol craidd dros y pum mlynedd nesaf. Credwn y bydd cyflawni'r cynllun hwn yn arwain at gryn newid yn y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a sut yr ydym yn ymwneud â'n cymunedau lleol. Bydd yn gosod y sylfeini i ni gyrraedd ein gweledigaeth am y Fro. Ar gyfer pob un o'n hamcanion yr ydym wedi gosod allan lle'r ydym eisiau bod yn 2050 ac y mae hyn yn cefnogi ein gweledigaeth gyffredinol am 2050 ar gyfer y Fro.

Yr ydym yn ffodus i fyw a/neu weithio yn y Fro a gwyddom fod ein trigolion yn falch o'r ardal lle maent yn byw. Gwyddom hefyd fod gan y Fro asedau sylweddol: mae gennym lefelau cymharol isel o ddiweithdra, mae'r sector wirfoddol yn ffyniannus ac y mae gennym gysylltiadau trafniadaeth da ag ardaloedd eraill yn rhanbarth de Cymru, yn enwedig â Chaerdydd, ein prifddinas. Mae'r Fro yn ardal brydferth, ac y mae trigolion ac ymwelwyr yn hoffi ac yn mwynhau ein tirwedd ysblennydd. Maent yn gweld manteision bod yn yr awyr agored, boed hynny yn mynd â'r ci am dro yn un o'n parciau gwledig, cael hwyl yn Ynys y Barri neu dreulio amser ar hyd ein harfordir treftadaeth. Mae ein hamgylchedd lleol yn bwysig i'n lles corfforol a meddyliol, ond mae'n bwysig hefyd i lesiant economaidd a diwylliannol yr ardal.

Byddwn yn defnyddio ein hasedau amrywiol, gan gynnwys hanes maith o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth, i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a ddaeth i'r amlwg trwy ein hasesiad llesiant. Un o asedau mwyaf yr ardal yw'r bobl sy'n byw yn y Fro ac yr ydym eisiau cryfhau ein perthynas gyda'n holl gymunedau a gweithio ynghyd i wella llesiant lleol.

Am Ein Cynllun

Mae 'Ein Bro – Ein Dyfodol' yn gynllun ac yn fframwaith i'n gweithgareddau cydweithredol craidd dros gyfnod 2018-2023. Trwy gyrraedd y deilliannau y manylir amdanynt yn y cynllun hwn fe fyddwn yn cymryd y camau cyntaf tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y Fro yn 2050. Mae'r cynllun yn rhoi manylion am y pedwar amcan llesiant yr ydym am eu cyflawni, y camau a gymerwn i wneud hynny a beth fydd deilliannau'r gweithgareddau hyn ar gyfer 2023.

Y cam cyntaf wrth ddatblygu'r cynllun hwn oedd cynnal asesiad llesiant cynhwysfawr. Ymarferiad cymhleth oedd hwn a ddygodd ynghyd amrywiaeth eang o ddata ac ymchwil ac a oedd yn cynnwys ymwneud yn helaeth i wella ein dealltwriaeth o'r Fro a'r gwahanol gymunedau yn yr ardal. Bu partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r holl wybodaeth y manylir amdano yn yr asesiad, a nodwyd pedwar o amcanion llesiant. Mae'r amcanion hyn yn torri ar draws gwahanol sectorau a mudiadau ac yn ein barn ni, maent yn faterion lle gall y partneriaid gael yr effaith fwyaf i wella llesiant.

Dyma ein pedwar amcan llesiant:

- **Galluogi pobl i ymwneud, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol**
- **Lleihau tloedi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd**
- **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant**
- **Gwarchod, cyfoethogi a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd**

Wrth gytuno ar ein hamcanion yr ydym wedi ystyried yr amrywiaeth o wybodaeth yn yr asesiad llesiant a'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn lleol a rhanbarthol. Mae'r BGC yn hyderus y gallwn, trwy gyrraedd yr amcanion hyn, ddylanwadu ar amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau ar draws y Fro, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trigolion ac ymwelwyr, a thros einioes y cynllun fe allwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol.

Ni fwriadwyd i'r cynllun hwn roi manylion am bob gweithgaredd y bydd partneriaid yn wneud i wella llesiant lleol. Nis bwriadwyd i ddyblygu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud trwy drefniadau partneriaeth cadarn. Byddwn yn ategu ac yn dylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei wneud trwy Ddinas-Ranbarth y Brifddinas, sef edrych ar sut i wella cyfleoedd strategol a thrafnidiaeth ar draws rhanbarth Dwyrain De Cymru. Byddwn yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd yn datblygu Cynllun Ardal i roi manylion am yr hyn a wneir i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Caerdydd a'r Fro, a byddwn yn cefnogi'r Fro Ddiogelach, sef partneriaeth sefydledig sy'n llwyddo i wella diogelwch cymunedol yn yr ardal.

Bydd y cynllun hwn a gwaith y BGC yn ategu'r holl weithgareddau hyn a mwy, ond byddwn hefyd yn herio'r partneriaethau hyn ac eraill o ran y ffordd y gallant helpu i gwrdd â'n

hamcanion llesiant, sut y maent wedi mabwysiadu'r pum dull o weithio a sut y maent yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Canllaw Cyflym

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r unig un o'i bath yn y byd.

Yr hyn mae Cymru'n wneud heddiw, fe wnaiff y byd yfory

Cenedloedd Unedig

Mae'r Ddeddf yn fater o wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud yn siŵr fod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, yn ceisio atal problemau rhag digwydd a chymryd agwedd fwy cyfun. Trwy wneud hyn, gallwn greu Bro a Chymru lle'r ydym oll eisiau byw ynddynt, yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant cenedlaethol y mae'n rhaid i ni weithio tuag atynt ac y dylid eu gweld fel cyfres integredig. Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ardal pob awdurdod lleol lle mae'n rhaid i fudiadau weithio ar y cyd er mwyn cyfrannu at y nodau hynny.

Goal	Description of the goal
A prosperous Wales	An innovative, productive and low carbon society which recognises the limits of the global environment and therefore uses resources efficiently and proportionately (including acting on climate change); and which develops a skilled and well-educated population in an economy which generates wealth and provides employment opportunities, allowing people to take advantage of the wealth generated through securing decent work.
A resilient Wales	A nation which maintains and enhances a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change).
A healthier Wales	A society in which people's physical and mental well-being is maximised and in which choices and behaviours that benefit future health are understood.
A more equal Wales	A society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or circumstances (including their socio economic background and circumstances).
A Wales of cohesive communities	Attractive, viable, safe and well-connected communities.
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language	A society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language, and which encourages people to participate in the arts, and sports and recreation.
A globally responsible Wales	A nation which, when doing anything to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales, takes account of whether doing such a thing may make a positive contribution to global well-being.

Rhaid i'r BGC asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal, gosod amcanion i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau a chymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion hynny. Mae mwy o wybodaeth am y Ddeddf i'w gael [yma](#)¹

Trwy'r cynllun hwn oll, mae cyfeiriadau at yr asesiad fu'n sail o wybodaeth i'r cynllun hwn, cyfeiriad at y modd y bydd y gweithgareddau a gynlluniwyd gennym yn cyfrannu at y nod, a chyfeiriad at egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum modd o weithio. Mae'r moddau hyn o weithio yn allweddol i newid y ffordd y byddwn yn gweithio ac i sicrhau ein bod yn ***'gweithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau yr atebir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwythau'***.

Long term



The importance of balancing short-term needs with the need to safeguard the ability to also meet long-term needs.

Prevention



How acting to prevent problems occurring or getting worse may help public bodies meet their objectives.

Integration



Considering how the public body's well-being objectives may impact upon each of the well-being goals, on their other objectives, or on the objectives of other public bodies.

Collaboration



Acting in collaboration with any other person (or different parts of the body itself) that could help the body to meet its well-being objectives.

Involvement



The importance of involving people with an interest in achieving the well-being goals, and ensuring that those people reflect the diversity of the area which the body serves.

¹ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>.

Ein Bro - Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn 'Ein Bro', BGC Bro Morgannwg mae uwch-gynrychiolwyr y mudiadau canlynol sydd wedi gweithio ynghyd i ddrafftio'r cynllun hwn mewn ymateb i'n hasesiad o lesiant lleol a byddant yn parhau i weithio ynghyd i gyflawni ein hamcanion. Nid oes modd i ddim ond un mudiad gyflawni'r un o'n hamcanion, a bydd gan yr holl bartneriaid ran i'w chwarae o ran cyflawni'r ymrwymadau yn y cynllun hwn. Dyma'r BGC:

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP)**
- **Coleg Caerdydd a'r Fro**
- **Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru**
- **Cwmni Adsefydlu Cymunedol**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Cyngor Bro Morgannwg**
- **Cynrychiolaeth o Gyngorau Tref a Chymuned**
- **Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)**
- **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**
- **Heddlu De Cymru**
- **Llywodraeth Cymru (LIC)**
- **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**
- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru**



Beth wyddom ni am y Fro - Ein Hasesiad Llesiant

Mae'r asesiad llesiant yn dwyn ynghyd gyfoeth o wybodaeth am fywyd ym Mro Morgannwg. I helpu i greu'r llun hwn, fe fuom yn edrych ar lawer math gwahanol o ddata ac ymchwil, a gweithio'n galed i ymwneud â'r trigolion er mwyn deall beth sy'n dda am fywyd yn y Fro a beth fyddai'n gwella llesiant lleol. Mae'r asesiad yn fan cychwyn da i ni wybod mwy am ein cymunedau a'r bobl sy'n eu llunio, ond yr ydym yn cydnabod fod mwy i'w wneud.

Gall llesiant da olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, a gall ddibynnu ar gymaint o wahanol ffactorau gan gynnwys eich oed, lle'r ydych yn byw, neu eich iechyd. Mae'r BGC wedi ystyried hyn wrth bennu ein hamcanion a'r camau y bydd angen i ni eu cymryd i'w cyflawni. Yr ydym yn cydnabod y bydd angen addasu ein gweithgareddau ar gyfer gwahanol gymunedau, gwahanol oeddrannau ac i gwrdd ag anghenion unigol, a byddwn yn parhau i ymwneud â'n trigolion er mwyn adeiladu ar ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl yn y Fro.

Mae'r asesiad llesiant yn broses barhaus o wella ein sail o dystiolaeth a siarad gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth sydd ei angen i gyflwyno'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl ledled y Fro.

Ein hardal - Mae Bro Morgannwg yn rhan amrywiol a hyfryd o Gymru, wedi'i nodweddu gan gefn gwlad agored, cymunedau arfordirol, trefi prysur a phentrefi gwledig, ond y mae hefyd yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd, amrywiaeth o ddiwydiant a busnesau, a'r Barri, tref fwyaf Cymru. Mae gan bobl sy'n byw, yn ymweld ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn oll anghenion gwahanol. Mantais i'r ardal yw bod ganddi gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da, a'i bod mewn lleoliad cyfleus yn y rhanbarth fel ardal am waith, fel cyrchfan ymwelwyr a lle i fyw. Fodd bynnag dengys yr asesiad yn glir fod ardaloedd o dlodi ac amddifadedd ac y gall bywyd fod yn wahanol iawn yn dibynnu ar lle'r ydych yn byw a'ch amgylchiadau penodol.

Ein poblogaeth – Yr oedd poblogaeth Bro Morgannwg yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn 2015 ar sail data Cyfrifiad 2011 ychydig dan 128,000 gyda rhyw 51% o'r boblogaeth yn fenywod a 49% yn wrywod. Mae gan y Fro broffil oedran tebyg i gyfartaledd Cymru, gyda 18.5% o'r boblogaeth yn 0-15 oed, 61.1% yn 16-64 oed a 20.4% yn 65+ oed. Mae rhagfynegiadau poblogaeth yn amcangyfrif, erbyn 2036, mai gostwng wnaiff y boblogaeth 0-15 ac 16-64 oed. Fodd bynnag, mae gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio, gyda rhagolygon y bydd nifer y bobl 65+ oed yn debyg o gynyddu a bod uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig erbyn 2036. Ar hyn o bryd, mae canran poblogaeth y Fro sy'n crybwyll cyfyngiadau ar weithgaredd oherwydd anabledd ymhlith yr isaf yng Nghymru. Dywedodd 2.8% o boblogaeth y Fro eu bod o gefndir heb fod yn wyn, ac yr oedd 6% o'r boblogaeth yn gyffredinol yn dweud nad yn y DU y ganwyd hwy. O'r rhain, cyrhaeddodd 33% ar ôl 2004. Yr oedd gan y Fro gydbwysedd mewn fudo mewnol negyddol yn 2015; mae mewn fudo mewnol yn cyfeirio at bobl yn symud rhwng gwledydd y DU. Symudodd mwy o bobl o'r Fro i wledydd eraill y DU nac a symudodd i'r ardal o wledydd y DU.

Ein diwylliant – Fel rhan o waith y BGC yr ydym wedi ymrwymo i hyrwyddo ein treftadaeth ddiwylliannol.. O ran yr iaith Gymraeg, dim ond 3% o’r trigolion a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, gyda 87% heb allu siarad unrhyw Gymraeg. Yr oedd gan y 10% oedd yn weddill raddau amrywiol o allu i siarad Cymraeg. O’r boblogaeth a all siarad Cymraeg, dywedodd 25% eu bod yn defnyddio’r Gymraeg yn ddyddiol. Wrth ddatblygu ein gwasanaethau rhaid i ni sicrhau ein bod yn hyrwyddo’r Gymraeg a bod gwasanaethau a gwybodaeth ar gael i bawb.

Ein Cymunedau – At ddibenion yr asesiad llesiant ac i’n helpu i ddeall yn well lesiant ein cymunedau ym Mro Morgannwg, fe wnaethom ystyried yr ardal yn ei chyfanrwydd a hefyd rannu’r sir yn dair ardal gymunedol – Y Barri, y Fro Ddwyreiniol a’r Fro Orllewinol. Fel rhan o ddatblygiad a chyflwyno’r cynllun, fe wnawn fwy o waith i wella ein proffiliau cymunedol a deall y gwahaniaethau a’r asedau sydd yn ein cymunedau lleol.

Datblygu'r cynllun

Drafftiodd y cynllun gydag ymwneud amrywiaeth o fudiadau er mwyn helpu i adnabod y ffordd orau o gyrraedd ein hamcanion. Trwy gydol y broses, rhoesom brawf i weld a yw ein hamcanion y rhai cywir a buom yn gweithio mewn partneriaeth i nodi camau priodol fydd yn ein galluogi i gyflawni'r amcanion hyn dros y pum mlynedd nesaf. Y cynllun hwn fydd yn sylfaen i gynlluniau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol fydd yn ein galluogi i gyrraedd ein gweledigaeth am 2050 ar gyfer y Fro.

Gellir crynhoi datblygiad y cynllun yn y deuddeg cam isod. Yr ydym ar hyn o bryd ar gam 11.

1	Cynnal yr asesiad llesiant gan ddwyn ynghyd amred o ddata, ymchwil ac ymwneud.
2	Ystyried canfyddiadau'r asesiad llesiant a nodi pedwar o amcanion llesiant lle gall partneriaid weithio ynghyd i ymdrin â materion arwyddocaol fydd yn gwella llesiant lleol ac yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau cenedlaethol.
3	Ymgynghori â'n trigolion ac amrywiaeth o randdeiliaid ar y drafft o asesiad llesiant a'n hamcanion
4	Rhoi prawf ar ein hamcanion yn erbyn canlyniad ein hymgyngori i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn ychwanegol at ganfyddiadau'r asesiad llesiant
5	Cyhoeddi'r asesiad diwygiedig yn dilyn yr ymgynghori a chymeradwyo ein drafft o amcanion llesiant
6	Partneriaid yn datblygu a chynnal hunan-asesiad against the four draft amcanion llesiant
7	Cynnal cyfres o weithdai arbenigol a digwyddiad llais y disgybl i helpu i adnabod y camau iawn i gwrdd â'r amcanion llesiant
8	Cynnal gweithdy BGC i bennu camau posib i'w cynnwys yn y cynllun mewn ymateb i ganfyddiadau'r hunanasesiad a'r camau a flaenoriaethwyd gan y gweithdai arbenigol
9	Ceisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (CCD) am sut i gyflwyno ein hamcanion
10	Drafftio cynllun i adlewyrchu canfyddiadau'r All, cyngor gan y CCD, barn y grŵp golygyddol ac aelodau'r BGC a chanlyniadau'r gweithdy BGC.
11	Ymgynghori â'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac ymgynghoreion statudol ynghylch y cynllun drafft.
12	Diwygio'r cynllun mewn ymateb i'r ymgynghoriad a'i gymeradwyo gan y BGC i'w gyhoeddi.

Creu'r cysylltiadau

Fel y dywedwyd yn gynharach yn y cynllun hwn, dylid ystyried amcanion llesiant a gweithgareddau llesiant cynlluniedig y BGC yng nghyd-destun ystod yr ystod o gynlluniau, strategaethau a gweithgareddau cydweithredol eraill sy'n digwydd yn y Fro a'r ardal ehangach. Nodwyd yr amcanion a'r gweithredoedd yn y cynllun mewn ymateb i'r asesiad llesiant ac fe'u lluniwyd gan ymgynghori ac ymwneud helaeth. Mae'r diagram isod yn rhoi syniad o'r ystod o gynlluniau a strategaethau eraill sydd ar gael ac a fydd yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a byddant hefyd yn ymdrin â rhai o'r materion y manylir amdanynt yn ein hasesiad llesiant. Nid rhestr gyflawn mo hon, a lle bo modd, darparwyd dolenni i fwy o wybodaeth. Un o'r heriau i'r BGC yw sicrhau, ar draws yr ystod hon o weithgareddau, fod gennym ddealltwriaeth o'r effaith ar wahanol gymunedau a grwpiau poblogaeth ac yr ydym yn creu'r cysylltiadau er mwyn sicrhau ein bod oll yn gweithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy a'n bod yn gwella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Rhaglenni a Gyllidir gan LIC	Cefnogi Pobl Cymunedau'n Gyntaf Teuluoedd yn Gyntaf Dechrau'n Deg
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cynllun Ardal Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Strategaeth Dementia Caerdydd a'r Fro Bwrdd Cynllunio Ardal Byrddau Diogelu Rhanbarthol Fframwaith Pobl Hŷn Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Strategaethau Iechyd Cyhoeddus
Trosedd ac Anhrefn	Cynllun Plismona a Lleihau Trosedd Bro Ddiogelach Cynllun Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Cyd-Strategaeth Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cynllun Cyflwyno Cydlynu Cymunedol
Economi a'r Amgylchedd	Adfywio'r Barri Dinas-Ranbarth Caerdydd Cynllun Datblygu Lleol Strategaeth Tai Cynllun Datblygu Lleol Cymunedau Gwledig Datganiad Ardal (Deddf yr Amgylchedd) SONAAR Prosiect Gwyrdd
Addysg a Sgiliau	Fframwaith Ymwneud a Chynnydd Ieuenctid Dysgu Oedolion a Chymunedol Rhanbarthol Cynhwysedd Digidol

Cyflawni ein hamcanion

Mae'r pedwar amcan llesiant y cytunodd y BGC arnynt yn cyd-blethu a bydd llawer o'r camau y manylir arnynt dros y tudalennau nesaf yn helpu i gyflawni mwy nag un o'n hamcanion ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'n glir o'r amcanion a ddewiswyd gennym a'r camau sydd yn ein barn ni yn angenrheidiol i'w cyflawni y bydd gan yr holl bartneriaid ran i'w chwarae. Mae'r camau hyn yn adlewyrchu cryn swm o ymwneud a thrafodaeth am y gwasanaethau a ddarperir eisoes, sut yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd a beth sydd yn rhaid newid. Bydd rhai o'r camau yn haws i'w cyflawni, ac fe gymer eraill fwy o amser; mae hyn yn adlewyrchu natur gymhleth y pynciau yr ydym am ymdrin â hwy. Mae'r BGC wedi cydnabod bod angen i ni wneud mwy o ymchwil mewn rhai meysydd a datblygu gwell dealltwriaeth o'r materion fel y gallwn ddatblygu'r atebion iawn yn y tymor byr a'r tymor hir.

Ar gyfer pob un o'n hamcanion yr ydym wedi datblygu datganiad o'r fan y carem fod yn 2050 a'r hyn yr ydym am lwyddom i'w wneud; mae'r datganiadau hyn yn cynnal ein gweledigaeth am 2050 ar gyfer y Fro. Yr ydym hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng ein hamcanion a sut y maent yn ffitio gyda'i gilydd. Ar gyfer pob un o'n hamcanion yr ydym yn rhoi manylion am y sefyllfa bresennol gan ddefnyddio gwybodaeth o'n hasesiad llesiant i esbonio pam bod hyn yn un o'r amcanion a ddewiswyd gennym. Ceir ym mhob adran hefyd wybodaeth o'r ymarferiad hunanasesu a gynhaliwyd gan y mudiadau sy'n bartneriaid ac y mae'r modd y mae hyn yn gweithio wedi helpu i gadarnhau ein hamcanion. Ymarferiad adlewyrchol oedd hwn i'n helpu i ddeall sut y gallwn wella ein cyfraniadau i'r amcanion llesiant ac un a roes fewnwelediad buddiol i symud o'n hasesiad llesiant at ein cynllun.

Darperir hefyd fanylion am y camau y byddwn yn eu cymryd i helpu i gyrraedd pob un o'n hamcanion. Mae'r rhain wedi eu rhannu rhwng y camau hynny y gallwn gychwyn arnynt yn fuan, a'r rhai a gymer fwy o amser i'w cyflawni. Dyma'r camau y byddwn yn bwrw ymlaen â hwy dros y pum mlynedd nesaf ac a fydd yn cael eu monitro yn rheolaidd a'u hadolygu yn flynyddol. Hwy fydd y blociau adeiladu i gyflawni ein gweledigaeth yn y tymor hwy am 2050. Mae'r adrannau 'sut beth fydd llwyddiant' yn rhoi manylion am y deilliannau y byddwn yn anelu at eu cael dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r dudalen olaf ar gyfer pob amcan yn dangos sut y bydd yr amcan yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant cenedlaethol, sut y mae'r pum modd o weithio yn rhan annatod o'n gweithgareddau a sut y mae egwyddor datblygu cynaliadwy wrth graidd ein gweithgareddau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfle gwirioneddol i newid gwasanaethau cyhoeddus, ac y mae'r camau yn ein cynllun ni yn adlewyrchu hyn trwy ddangos y gallwn, o weithio gyda'n gilydd yn wahanol, greu gwir newid yn y materion sy'n bwysig i'n cymunedau ac a nodwyd gan ein tystiolaeth.

Amcan 1: Galluogi pobl i ymwneud, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol

Y Fro 2050: Beth ydym am ei gyflawni?

Mae llais pawb ar draws y Fro yn cael ei glywed, a chanddynt gyfle i ymwneud â llunio gwasanaethau lleol, ac y maent yn hyderus fod rhywun yn gwrando ac y gallant weld y gwahaniaeth a wnaed gan eu hymwneud. Mae ymwneud cyhoeddus wedi ei asio rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, ac y mae partneriaid wedi addasu dulliau ymwneud i ymateb i newidiadau yn anghenion ein cymunedau. Mae pobl yn ei chael yn hawdd a hwylus cyfathrebu gyda ni wrth i ni fanteisio ar gamau newydd mewn technoleg ddigidol, ond gan barhau i weld gwerth cyswllt wyneb yn wyneb. Mae gennym oll well dealltwriaeth o'r asedau yn ein cymunedau a nodweddion unigryw pob cymuned, boed hynny yn gymuned o leoliad, oedran neu ddiddordebau. Mae gan bobl o bob cefndir ac oedran gyfle i gymryd rhan ym mywyd y gymuned, cymryd rhan mewn ffurfio a chyflawni atebion i faterion lleol, ac y mae ganddynt y grym i gymryd rhan ym mywyd y gymuned ac atal problemau sy'n effeithio arnynt – yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Parhau i gynyddu wnaeth lefelau o wirfoddoli yn y Fro ac y mae mwy o allu a hyder wedi arwain at lefelau uwch o gymryd rhan mewn ardaloedd llai cyfoethog. Deuir i sylweddoli manteision helaeth ymwneud â bywyd y gymuned, a hynny yn helpu i wella iechyd a llesiant, gwneud cymunedau yn fwy cydlynus a lleihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.

Trwy alluogi pobl i ymwneud, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol byddwn hefyd yn cyfrannu at gyrraedd ein hamcanion eraill

- Gall ymwneud â'n trigolion helpu i addysgu pobl am bwysigrwydd **amddiffyn ein hamgylchedd** a gall cyfleoedd i wirfoddoli gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chynnal amgylchedd o ansawdd uchel i bawb ei fwynhau
- Mae **anghydraddoldeb** yn bodoli o ran lefel ymwneud â'n cymunedau ac y mae angen gweithio i ymwneud â grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd mwy difreintiedig
- Gall adeiladu ymddiriedaeth helpu i ddwyn rhieni â phlant ifanc i mewn i weithgareddau sydd â'r nod o **roi cychwyn da i blant mewn bywyd** ac i gyrchu cefnogaeth mewn llawer o sefyllfaoedd a all **atal Profiadau Plentyndod Andwyol**

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae **ymwneud** yn cael ei amlygu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel un o'r 5 dull o weithio er mwyn i wasanaethau ledled Cymru wella llesiant a chyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol. O ganfyddiadau'r asesiad llesiant, **mae BGC y Fro wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein holl drigolion yn ymwneud ac yn teimlo'n rhan o'n cymunedau er mwyn dwyn nifer o fanteision llesiant**. Canfu'r asesiad fod y sawl sy'n byw mewn cymunedau llai cyfoethog yn llai tebygol o ymwneud, ac er mwyn ymateb i anghenion y cymunedau hyn, yn enwedig er mwyn cyrraedd ein hamcan o 'leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd', rhaid i ni eu deall a'u grymuso.

Canfu'r asesiad fod cael llais mewn penderfyniadau yn bwysig iawn i drigolion y Fro er mai isel oedd nifer y bobl oedd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau. Gall galluogi pobl i ymwneud â'u cymunedau lleol helpu i gynyddu eu hymdeimlad o berthyn i'r ardal leol, cynyddu boddhad â bywyd yn gyffredinol a helpu i sicrhau fod ein holl gymunedau yn hyderus y clywir eu lleisiau.

Digwyddodd llawer o ymwneud fel rhan o'r asesiad llesiant ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth trwy ymgyrch 'Gawn ni Air', ac y mae hyn wedi amlygu i'n partneriaid yr angen i fod yn fwy arloesol a chydlynus wrth ymwneud â'n cymunedau lleol.

Bydd hyn yn cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth ac y mae'n faes lle gall gweithredu ar y cyd gael effaith go-iawn. Bydd deall ac ymwneud â'n cymunedau hefyd yn sicrhau y byddwn yn parhau i addasu i newid a'r modd yr ydym yn gweithio, fel bod pob sector o gymdeithas yn ei chael yn hawdd a hwylus i ymwneud.

Trwy ofalu fod gennym oll well dealltwriaeth o'r asedau yn ein cymunedau, gall partneriaid weithio ynghyd i gael nifer o effeithiau cadarnhaol. Mae sicrhau bod ein trigolion yn ymwneud â bywyd y gymuned nid yn unig o help i'n partneriaid ond hefyd yn esgor ar amrywiaeth o fanteision llesiant i unigolion, teuluoedd a'r cymunedau eu hunain. Nodwyd gwirfoddoli yn yr asesiad fel un o asedau mawr y Fro ac ni ellir gorbwysleisio'r effaith ar lesiant unigolion o ran gwella lles meddyliol a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol.

Tynnodd yr asesiad llesiant sylw at unigrwydd a bod yn unig yn gymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fel bygythiad posib yn y dyfodol gyda'r tebygrwydd y daw cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Gellir gweld gwirfoddoli fel ased i adeiladu arno i helpu i oresgyn hyn. Yn ychwanegol at helpu i leihau unigrwydd cymdeithasol, gall gwirfoddoli hefyd helpu i roi i bobl amrywiaeth eang o sgiliau newydd, gwella'r gobeithion o yrfa, a gwella lles corfforol a meddyliol.

Mae'n glir o'r asesiad, trwy alluogi pobl i ymwneud, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol, y gall y BGC beri amrywiaeth o fuddiannau llesiant, ac y mae'n faes lle gall gweithredu ar y cyd gan bartneriaid wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Ein Tystiolaeth – Canfyddiadau Allweddol

Yr oedd ystod o dystiolaeth o'r asesiad llesiant a'r ymarferiad hunanasesu yn sylfaen i'n Cynllun Llesiant. Dyma'r canfyddiadau allweddol yng nghyswllt yr amcan hwn:

- Mae **bod â llais mewn penderfyniadau** yn bwysig iawn i drigolion ond er hyn, ychydig sy'n credu mewn gwirionedd y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau.
- **'Bod â llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnaf i' oedd rhywbeth oedd yn bwysig i blant a phobl ifanc** trwy Uwch-Arolwg Ysgolion 2016 gyda 71% o ddisgyblion ysgol gynradd a 85% o ddisgyblion ysgol uwchradd yn dweud ei bod yn weddol bwysig neu yn bwysig iawn 'cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnaf'. Trwy'r un Arolwg, dywedodd 23% o ddisgyblion ysgol uwchradd nad yw oedolion a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau byth yn rhoi gwerth ar eu barn na'u syniadau; roedd 46% yn teimlo eu bod weithiau, 25% yn teimlo eu bod yn gwneud hynny'n aml, a 7% yn teimlo eu bod yn wastad yn gwneud.
- Yr oedd **heneiddio ac ynysu cymdeithasol** yn bryderon a godwyd am lesiant cymdeithasol y dyfodol yn yr ymatebion i Arolwg Gawn ni Air ac amcangyfrifir erbyn 2035 y bydd oddeutu dwbl y menywod 65+ oed yn byw ar eu pennau eu hunain o gymharu â dynion.
- Mae ffigyrau gan Wasanaeth Gwirfoddol Morgannwg yn amcangyfrif bod **gwerth ariannol gwirfoddoli** ym Mro Morgannwg am 2015/16 yn £36,903,499 ac y mae hyn yn dangos y cyfraniad sylweddol mae gwirfoddolwyr yn wneud i'w cymunedau lleol Mae'n bwysig ystyried hefyd nad yw'r ffigwr hwn ond yn cofnodi oriau gwirfoddoli a wneir trwy sianeli mwy ffurfiol, heb ddal y swm enfawr o wirfoddoli anffurfiol sy'n digwydd yn y Fro.
- Yr oedd trigolion yng Ngorllewin y Fro yn fwy **tebygol o wirfoddoli** na rhai Dwyrain y Fro. Yr oedd y rhai o'r Barri yn llawer llai tebygol o wneud gwaith gwirfoddol neu gymunedol. Yr oedd y sawl oedd mewn gwaith rheoli neu broffesiynol hefyd yn fwy tebygol o wirfoddoli na'r sawl oedd mewn swyddi gwaith llaw neu ddi-sgiliau.
- Mae canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli'n ffurfiol ym Mro Morgannwg yn fras yr un fath â'r cyfartaledd Cymreig. Fodd bynnag, wrth ystyried y rhai sy'n dweud eu bod yn **gwirfoddoli'n anffurfiol** dangosodd y Fro un o'r canrannau uchaf yng Nghymru. Y mathau mwyaf cyffredin o help a roddir yw gwneud negeseuon, gofalu am blant, cadw mewn cysylltiad â rhywun sy'n gaeth i'r cartref, darparu

cludiant a rhoi cyngor. Mae o leiaf hanner miliwn o bobl yng Nghymru yn gwneud un o'r gweithgareddau hyn mewn blwyddyn.

- Canfu ein **hunanasesiad** fod polisi ac arweinyddiaeth ynghylch ymwneud â'n cymunedau yn aml yn dda er y gall adnoddau a ffactorau eraill yn aml gyfyngu ar weithgareddau. Cydnabuwyd bod llawer o weithgareddau yn digwydd ar draws partneriaid i ymwneud â'n cymunedau ond dyma faes lle gellir gwella er mwyn sicrhau ein bod yn cronni ein hadnoddau i gynnal gweithgareddau ar y cyd a rhannu'r dystiolaeth a gafwyd. Bydd hyn yn gwneud yn sicr fod gennym oll ddealltwriaeth well a mwy holistig o'n cymunedau a sicrhau ar yr un pryd fod ein trigolion yn ei chael yn hawdd siarad â ni ac osgoi syrffed oherwydd gormod o ymgynghori. Canfu'r asesiad hefyd fod diffyg adborth yn aml i'r sawl y buwyd yn ymwneud â hwy unwaith i'r gweithgaredd cyntaf ddigwydd.

Beth fyddwn ni'n wneud?

Beth fyddwn ni'n dechrau ei wneud heddiw?

Mabwysiadu Egwyddorion Cenedlaethol Ymwneud Cyhoeddus yng Nghymru¹.

Ymchwilio i'r arferion gorau mewn ymwneud a chyfranogi cymunedol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol i ddatblygu agweddau newydd gyda phwyslais arbennig ar y canlynol:

- dulliau digidol
- hygyrchedd/iaith glir
- plant a phobl ifanc
- cymunedau difreintiedig
- grwpiau anodd eu cyrraedd
- cyfleoedd trwy chwaraeon, diwylliant a'r amgylchedd

Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i staff a thrigolion o bob oed, gan gydnabod yr amrywiaeth o fanteision personol a chymunedol.

Beth fydd yn cymryd tipyn mwy o amser i ni ei gyflawni?

Cynhyrchu pecyn cymorth i bartneriaid ar draws y BGC i gefnogi agwedd fwy integredig at ein gweithgareddau ymwneud sydd yn gosod y gymuned yn y canol.

Gweithio gyda'r gymuned leol i nodi a datblygu prosiect cyd-gynhyrchu yn un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a datblygu agwedd y gellir ei defnyddio gyda phrosiectau eraill yn y Fro.

Datblygu mwy o wybodaeth am ein cymunedau lleol, yr asedau, grwpiau ac unigolion all weithio gyda ni i annog mwy o gyfranogi cymunedol. Bydd hyn yn help hefyd i nodi atebion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Gweithio gyda staff rheng-flaen a phobl yn y gymuned, e.e. hyfforddwyr chwaraeon a gwirfoddolwyr i adnabod anghenion, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio at wasanaethau e.e. dementia, cam-drin domestig, unigrwydd/ynysu.

Adeiladu ar brofiad cynlluniau bancio amser lleol a'r rhai mewn ardaloedd cyfagos i ymchwilio i bosibilrwydd cynllun bancio amser rhanbarthol/i'r Fro.

Sut beth fydd llwyddiant yn 2023?

Bydd safonau ar y cyd am ymwneud yn cael eu datblygu.

Rhennir sgiliau, adnoddau ac arbenigedd am ymwneud ar draws mudiadau, fydd yn arwain at agwedd fwy arloesol a chyson ar draws y partneriaid.

Mae gan bobl ledled y Fro lais.

Datblygir cyfleoedd am weithgareddau ymwneud sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r diwylliant lleol.

Bydd modd mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol ar draws pob oedran.

Byddwn yn adeiladu ar y berthynas sydd gan staff a gwirfoddolwyr yn y gymuned i roi gwybodaeth am wasanaethau ac adnabod lle mae pobl yn fregus.

Cydnabyddir cyfraniadau pob oedran i'r gymuned leol.

Mae cyfleoedd yn cael eu creu i staff ddatblygu sgiliau newydd a datblygu mwy o fewnwelediad i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Caiff cymunedau eu grymuso â mwy o allu i helpu i roi atebion lleol i broblemau lleol.

Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hannog a'u parchu.

“Mae trigolion yn adnodd pwysig, yn rhoi golwg uniongyrchol ar gryfderau a gwendidau eu cymuned. Gallant gyfrannu trawstoriad o syniadau a heriau gwahanol a allai fel arall gael eu hanwybyddu. Gall trigolion helpu i ddadansoddi anghenion penodol eu cymuned, a sicrhau bod prosiectau cynaliadwyedd yn cael eu cynllunio'n iawn i gwrdd â'r anghenion hynny ...Mae cynaliadwyedd yn cymryd amser;.... Bydd ymrwymiad i gynaliadwyedd a'r broses o ymwneud â'r gymuned yn gyson..” - Sefydliad Dinasoedd Cynaliadwy

Trwy weithio yn gynaliadwy i gyflawni'r amcan hwn	
Cydweithredu	Cydweithredu i gronni'r wybodaeth a gasglwyd trwy weithgareddau ymwneud ar draws y partneriaid i'n helpu i ddeall yn well gryfderau, asedau a heriau yn ein cymunedau, datblygu dealltwriaeth holistig o anghenion pobl.
Ymwneud	Ymwneud pobl mewn llunio'r gwasanaethau a ddarparwn a siarad â hwy am yr hyn sydd bwysicaf iddynt.
Integreiddio	Integreiddio gweithgareddau ymwneud ar draws partneriaid i sicrhau fod pobl yn ei chael yn hawdd i gymryd rhan ym mywyd y gymuned a bod eu lleisiau'n cael eu clywed
Atal	Atal unigrwydd ac ynysu cymdeithasol trwy gymryd mwy o ran yn y gymuned ac ysbryd cymunedol i helpu i wella llesiant ein trigolion
Tymor Hir	Sicrhau bod gwasanaethau yn addas at y tymor hir trwy weithio gyda'r cymunedau i adlewyrchu anghenion sy'n newid
Fe wnawn y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol	
Cymru Ffyniannus	Gall gwirfoddoli roi sgiliau newydd a magu hyder i gael gwaith ac addysg. Trwy ymwneud mwy effeithiol, gallwn sicrhau bod cyngor a gwasanaethau cefnogi yn hygyrch ac yn cwrdd ag anghenion lleol
Cymru Wydn	Annog a chefnogi pobl i ymwneud mwy â phrosiectau amgylcheddol yn eu cymuned leol a deall pa mor bwysig yw amgylchedd da i'n llesiant.
Cymru Iachach	Cynyddu gwirfoddoli i wella lles corfforol a meddyliol ein cymunedau ac i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.
Cymru Fwy Cyfartal	Sicrhau bod gan bobl o bob cefndir y gallu i gymryd rhan ym mywyd y gymuned, grymuso ein cymunedau i weithio ynghyd i oresgyn heriau a chwrdd ag anghenion pob sector o'n cymuned yn awr ac yn y dyfodol.
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cefnogi pob sector o'r gymuned i gael llais a

	<p>theimlo'n hyderus fod rhywun yn gwrando arnynt, helpu i greu Bro Morgannwg a Chymru fwy cydlynus a lleihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.</p>
<p>Cymru o Ddiwylliant Bywiog a lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu</p>	<p>Cynyddu ymwneud cymunedol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol a sicrhau y gall trigolion ymwneud â ni yn Gymraeg.</p>
<p>Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang</p>	<p>Cyfrannu at lesiant byd-eang trwy greu ardal a chenedl lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys yr holl drigolion ac yn ystyried eu hanghenion a'u dyheadau.</p>

DRAFT

Amcan 2: Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd

Y Fro 2050: Beth ydym am ei gyflawni?

Yr ydym wedi gweithio gyda chymunedau lleol i greu Bro Morgannwg sy'n fwy cyfartal ac i dorri patrymau rhyng-genedlaethau o dlodi. Yr ydym wedi adeiladau ar asedau cymunedol, gan gryfhau gwynwch ein cymunedau a rhoi grym i bobl oresgyn y patrymau amddifadedd sydd wedi gwreiddio'n ddwfn mewn rhai ardaloedd. Mae disgwyliad einioes iach mewn ardaloedd difreintiedig wedi cynyddu, a chaeodd y bwlch rhwng y rhai ac ardaloedd eraill yn y Fro. Mae siawns rhywun o fyw bywyd iach yr un fath lle bynnag mae'n byw a phwy bynnag ydyw. Mae anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd difreintiedig yn gostwng wrth i ni weithio gyda'r gymuned i leihau lefelau gordewdra a smygu a chynyddu bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol. Mae lefelau trosedd wedi gostwng a chaiff pob plentyn gychwyn da mewn bywyd. Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig wedi gwella a gwireddir manteision llesiant treulio amser yn yr awyr agored a gwell safonau tai ledled y Fro. Mae cyrhaeddiad addysgol wedi gwella, ac y mae gan bobl y sgiliau i ennill a dod ymlaen mewn gwaith fel ffordd allan o dlodi. Gweithiodd y BGC gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i sicrhau bod Dinas-Ranbarth y Brifddinas wedi creu manteision i holl gymunedau'r Fro.

Trwy leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cysylltiedig ag amddifadedd, byddwn hefyd yn cyfrannu at gyrraedd ein hamcanion eraill

- Gall gofalu ein bod yn **ymwneud** â'r sawl mewn ardaloedd difreintiedig sydd yn draddodiadol anos i'w cyrraedd sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y maent eu hangen a'n bod ni yn ymateb i anghenion y cymunedau hyn
- **Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn** yn sylfaenol er mwyn sicrhau y cânt y cyfle gorau a'u hatal rhag byw mewn tlodi
- Gall **amgylchedd o safon uchel** helpi wella lles meddyliol mewn ardaloedd difreintiedig ac annog pobl i dreulio amser yn yr awyr agored a bod yn gorfforol fywiog

Pam bod hyn yn bwysig?

Pan ystyrir y dystiolaeth a gyflwynwyd yn asesiad llesiant Bro Morgannwg ar lefel awdurdod lleol, gellir awgrymu fod gan Fro Morgannwg a'i thrigolion lefel dda o lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Yn gyffredinol, mae Bro Morgannwg yn gymharol gyfoethog ac y mae llawer o'r trigolion yn mwynhau safon uchel o fyw mewn amgylchedd diogel a deniadol. Fodd bynnag, y mae ardaloedd o Fro Morgannwg sy'n dioddef cryn anfantais, gan gynnwys diweithdra uchel, disgwyliad einioes iach is, cyrhaeddiad addysgol isel a lefelau uwch o drosedd. Mae ardaloedd mwyaf difreintiedig Bro Morgannwg yn rhan ddwyreiniol y Barri ac y mae pocedi o amddifadedd hefyd mewn llefydd ym Mhenarth a Sain Tathan. Mae'n bwysig cofio na fydd pob aelwyd yn yr ardaloedd hyn yn dioddef amddifadedd ac nad yw pawb sy'n byw mewn amddifadedd i'w cael yn yr un ardaloedd hyn.

Un o'r prif benawdau ddaw o'r asesiad llesiant yw'r gwahaniaethau sylweddol mewn disgwyliad einioes rhwng ardaloedd o'r Fro, yn enwedig disgwyliad einioes iach i fenywod lle mae gan y Fro y gwahaniaeth mwyaf rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae disgwyliad einioes a disgwyliad einioes iach yn dod dan ddylanwad nifer eang o ffactorau, a dangosodd yr asesiad fod anghydraddoldeb yn bodoli yn y Fro, yn gysylltiedig nid yn unig â dulliau iach o fyw ond ar draws ystod eang o ddangosyddion sy'n cael effaith ar lesiant unigolyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, mae'n bwysig ein bod yn deall yn well y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu tuag at anghydraddoldeb ac yn cymryd agwedd holistig at wella llesiant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn cyrraedd at Fro Morgannwg gyfartal.

Yr ydym yn cydnabod nad oes atebion hawdd, ond trwy weithio gyda'n gilydd, gall y BGC gryfhau gwytnwch yr ardaloedd hynny ac atal effeithiau andwyol tlodi. I wneud hynny, rhaid i ni ddeall ein cymunedau yn well trwy Gronni a chryfhau ein sylfaen o dystiolaeth a dwyn i mewn y bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn. Trwy gydnabod yr asedau sy'n bodoli yn yr ardaloedd hyn gallwn adeiladu arnynt a nodi atebion i leihau tlodi ac amddifadedd.

Mae'r BGC wedi cydnabod, er mwyn cyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol i Gymru, ei bod yn bwysig lleihau'r anghydraddoldeb sy'n bod rhwng ein cymunedau

Ein Tystiolaeth – Canfyddiadau Allweddol

Yn sail o wybodaeth i'n Cynllun Llesiant mae ystod o dystiolaeth a gasglwyd o'r asesiad llesiant a'r ymarferiad hunanasesu. Dyma'r canfyddiadau allweddol yng nghyswllt yr amcan hwn:

Yn y Fro y mae'r bwlch anghydraddoldeb lletaf yng Nghymru o ran [disgwyliad einioes iach](#) i fenywod. Mae cydberthynas rhwng yr ardaloedd gyda'r disgwyliad einioes iach isaf â'r rhai mwyaf difreintiedig a nodwyd trwy Fynegai Aml-Amddifadedd Cymru 2014 ac y maent yn bennaf mewn ardaloedd yn rhan ddwyreiniol y Barri megis Gibbonsdown, Castleland a Buttrills. Yn yr ardaloedd hyn hefyd y mae lefelau uwch o [ordewdra](#), lefelau uwch o [smygu](#) a chyfraddau uwch o [farwolaethau oherwydd alcohol](#).

Mae [cyfraddau uwch o droedd](#) mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae 7 AUDdI (Ardaloedd Uwch-Ddeiliant Is) ym Mro Morgannwg yn y 10% uchaf o AUDdI mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl Parth Diogelwch Cymunedol MAAC 2014 - ac y maent oll yn y Barri.

Mae'r sawl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o wirfoddoli ac y mae cyfraddau'r [bobl sy'n pleidleisio](#) ar eu hisaf yn yr ardaloedd hyn.

Mae ardaloedd amlwg yn rhan ddwyreiniol y Barri lle mae [cyrhaeddiad addysgol yn is](#) a gall hyn fod yn gysylltiedig ag incwm a lefelau cyflogaeth is.

Mae [lefelau smygu](#) yn uwch o lawer yn nwyrain y Barri nac yn rhannau eraill y Fro.

Mae'r AUDdI mwyaf difreintiedig o gwmpas y Barri yn dangos nifer uwch o oedolion sydd [dros bwysau neu yn ordew](#). Mae hyn yn wir am blant hefyd.

Mae gan y Fro ganran is na'r cyfartaledd o [aelwydydd gorlawn](#); fodd bynnag, ardaloedd yn nwyrain y Barri sy'n dangos y cyfraddau uchaf o aelwydydd gorlawn, ac y maent dros ddwbl y cyfartaledd Cymreig yn rhai AUDdI.

Mae [incwm aelwydydd](#) cymedrig yn y Barri yn sylweddol is nac ardaloedd Dwyrain a Gorllewin y Fro.

Ar draws Cymru, mae 17% o'r boblogaeth yn dioddef [amddifadedd incwm](#) o gymharu â 14% yn y Fro. Ar lefel AUDdI, gan Ddinas Powys 1 yr oedd y canran isaf o'r sawl oedd yn dioddef amddifadedd incwm (4%), o gymharu â Gibbonsdown 2 gyda'r uchaf ar 41% - mwy na dwbl y ffigwr am Gymru.

Mae [sgoriau allyriadau aer](#) yn uwch o lawer yn ne a dwyrain y sir, gan gynnwys y Barri, lle mae dwyseddau poblogaeth, swm y traffig ac agosrwydd at ddiwydiannau trwm yn uwch

nac yn rhannau mwy gwledig y sir. Gall lefelau uwch o allyriadau mewn ardaloedd difreintiedig waethygu lefelau anghydraddoldeb iechyd sydd eisoes yn uchel trwy gynyddu lefelau clefydau anadlu a mathau eraill o salwch.

Mae'r canrannau uchaf o [bobl o oedran gwaith sy'n hawlio LCS](#) yn y Barri ac yn Sain Tathan yng Ngorllewin y Fro.

Yr oedd ein [hymarferiad hunan-asesiad](#) yn cydnabod fod amrywiaeth o weithgareddau yn digwydd ac yn canolbwyntio ar gymunedau difreintiedig; fodd bynnag, canfuwyd fod diffyg trosolwg strategol, heb i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fod o raid yn sbardun i wneud penderfyniadau. Rhoddwyd sgoriau isel hefyd am y modd yr ydym yn monitro effaith ein gweithgareddau gyda fframweithiau perfformiad yn canolbwyntio'n bennaf ar fonitro perfformiad gwasanaethau unigol yn hytrach na deilliannau i'r gymuned leol.

DRAFT

Beth fyddwn ni'n wneud?

Beth fyddwn ni'n dechrau ei wneud heddiw?

Adeiladau ar yr asesiad llesiant i wneud mwy o ymwneud, ymchwil a dadansoddi ynghylch anghydraddoldeb rhwng ein cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig fel sail i wybod sut y gallwn weithio ynghyd yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau a lleihau anghydraddoldeb.

Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, er enghraifft, banciau bwyd, gwasanaethau cyngor ar ddyled a phrosiectau eraill yn y gymuned, i ymchwilio i'r modd y gall gwasanaethau cyhoeddus gyrraedd y sawl sy'n byw mewn tlogi a gwella ffyrdd o gyrchu gwasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth.

Gweithio ynghyd i hybu negeseuon ymddygiad iach a datblygu agwedd seiliedig ar dystiolaeth tuag at atal, gan gydnabod yr angen i addasu ein hagweddau er mwyn cyrraedd gwahanol grwpiau poblogaeth gan gynnwys pobl hŷn, pobl iau a'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig.

Gweithio gyda thrigolion lleol i adnabod a chyflwyno prosiect amgylcheddol, gan gydnabod y cyfleoedd i gyfranogi cymunedol a'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd, gweithgaredd corfforol a llesiant.

Beth fydd yn cymryd tipyn mwy o amser i ni ei gyflawni?

Adeiladau ar waddol Cymunedau'n Gyntaf a gwaith a wnaed trwy raglenni megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chefnogi Pobl i ddatblygu agwedd fwy strategol tuag at fynd i'r afael â thlodi ar draws y Fro er mwyn cael y deilliannau gorau.

Gweithio ynghyd fel cyflogwyr lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu cyfleoedd newydd am brofiad gwaith, lleoliadau, prentisiaethau a datblygu sgiliau sydd yn gysylltiedig â chyfleoedd yn y dyfodol am waith ar y cyd â Dinas-Ranbarth y Brifddinas.

Datblygu agwedd gyfun tuag at fynd i'r afael â thlodi tanwydd gan gydnabod arbenigedd a chyfraniad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tuag at gyrraedd y nod hwn.

Gweithio gyda chymunedau lleol ac ymchwilio i fentrau llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r DU i nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd ac annog chwarae yn yr awyr agored yn rhai o'n hardaloedd mwy difreintiedig trwy, er enghraifft, gynlluniau gwella trafndiaeth a chau strydoedd ar gyfer chwarae.

Sut beth fydd llwyddiant yn 2023?

Gwell dealltwriaeth o anghenion y sawl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a sut y gall partneriaid weithio ynghyd i leihau anghydraddoldeb addysg, iechyd ac eraill.

Cefnogir pobl i mewn i waith a gallant gyrchu hyfforddiant a phrentisiaethau.

Mae hyfforddiant a datblygu sgiliau yn gysylltiedig â marchnadoedd swyddi at y cyfodol yn y rhanbarth.

Mae BGC yn gweithio gyda Dinas-Ranbarth y Brifddinas ac yn gweithio gyda hi i ddylanwadu er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd i'r Fro.

Gwell uno ar draws gwasanaethau, prosiectau a mentrau i fynd i'r afael â thlodi, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd er mwyn cael y deilliannau gorau.

Mae cymunedau yn fwy diogel, yn gryfach ac yn wytnach.

Gostyngiad mewn tlodi tanwydd.

Gwelliannau mewn disgwyliad einioes iach yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ac ar draws ystod o ddangosyddion iechyd.

Mae gan drigolion well dealltwriaeth o'r cyfraniad y gall yr amgylchedd wneud i'w llesiant ac y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn a gwella'r amgylchedd.

Prosiect amgylcheddol cynaliadwy sydd yn dod â llawer o fanteision llesiant i'r gymuned leol (e.e. iechyd, sgiliau newydd, hyder) ac a all fod yn sail o wybodaeth i waith mewn ardaloedd eraill.

“Mae datblygu cynaliadwy ...yn fater o sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn a byw ar yr un pryd o fewn terfynau amgylcheddol ...[mae'n] agor cyfleoedd i leihau difrod amgylcheddol a hybu cyfiawnder cymdeithasol a chau'r bwlch anghydraddoldeb iechyd” – Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Trwy weithio yn gynaliadwy i gyflawni'r amcan hwn	
Cydweithredu	Mae cydweithredu yn hanfodol os ydym yn wir am ddeall problemau cymhleth yn ein cymunedau mwy difreintiedig a lleihau tlodi
Ymwneud	Sicrhau bod y sawl sy'n byw yn ein hardaloedd mwy difreintiedig yn cael eu grymuso trwy gymryd rhan ac ymwneud i'n helpu i ddeall ein cymunedau yn well a llunio gwasanaethau lleol.
Integreiddio	Gweithio ynghyd i integreiddio ac asio gwasanaethau a chymryd agwedd fwy strategol at drin tlodi, sy'n canoli ar anghenion pobl leol a chymunedau lleol.
Atal	Dysgu o ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ac o brofiad lleol i ddatblygu agwedd fwy ataliol at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.
Tymor Hir	Cymryd golwg tymor hir at ein hagwedd, gan gydnabod yr angen i fynd i'r afael â thlodi rhyng-genedlaeth, ac y cymer beth amser i rai o'n gweithgareddau gael effaith, e.e. ar ddisgwyliad oes iach
Fe wnawn y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol	
Cymru Ffyniannus	Cefnogi'r sawl sy'n byw yn ein cymunedau mwy difreintiedig gyda'r addysg a'r hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau cyflogaeth dda fel ffordd allan o dlodi a thorri cylchoedd rhyng-genedlaethau o amddifadedd.
Cymru Wydn	Gwella'r amgylchedd yn ein cymunedau mwy difreintiedig i roi manteision llesiant i'n trigolion a helpu i greu cenedl lle mae'r amgylchedd yn cael ei warchod a'i wella.
Cymru Iachach	Cau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach ar draws y Fro trwy wella lles corfforol a meddyliol yn ein hardaloedd mwy difreintiedig.
Cymru Fwy Cyfartal	Gofalu bod gan holl drigolion y Fro yr un cyfle i fod yn ffyniannus, iach a hapus, a gallu cyrchu amgylchedd o ansawdd uchel.
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymryd agwedd holistig er mwyn deall ac addasu gwasanaethau i anghenion unigolion i greu cymunedau diogel, cryf a gwydn.

Cymru o Ddiwylliant Bywiog a lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu	Helpu trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol trwy ddarparu cyfleoedd hygyrch a fforddiadwy yn ein cymunedau lleol
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	Trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn yr ardal leol a helpu pobl i mewn i waith, gallwn leihau effeithiau amddifadedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang

DRAFT

Amcan 3: Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant

Y Fro 2050: Beth ydym am ei gyflawni?

Caiff pob plentyn yn y Fro y cychwyn gorau oll mewn bywyd, waeth lle mae'n byw. Mae iechyd plant wedi gwella a gostyngodd cyfraddau babanod isel eu pwysau geni, gordewdra mewn plentynod ac iechyd gwael y geg ar hyd y Fro ac yn enwedig mewn ardaloedd yn Nwyrain y Barri. Mae buddsoddi yn y 1000 diwrnod cyntaf wedi arwain at effeithiau cadarnhaol tymor-hir gan greu unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n wydn, diogel a hyderus. Mae plant yn parhau i berfformio'n dda yn y Cyfnod Sylfaen, gyda'r bwlch cyrhaeddiad yn cau rhwng y sawl sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim a'r rhai heb hawl ar draws pob oed. Mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag Profiadau Plentynod Andwyol gyda'r achosion gwreiddiol yn cael eu hatal, ac y mae system gefnogi gref ar gael i'r rhai ag anghenion cymhleth.

Trwy roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant byddwn hefyd yn cyfrannu tuag at gyrraedd ein hamcanion eraill

- Gall **amgylchedd** o ansawdd uchel roi cyfleoedd am chwarae a gweithgaredd corfforol sydd yn darparu ystod o fanteision llesiant i blant ifanc.
- Bydd **mynd i'r afael ag anghydraddoldeb** yn helpu i sicrhau ein bod yn rhoi cychwyn da mewn bywyd i bob plentyn trwy wella llesiant rheini a rhieni'r dyfodol
- Bydd sicrhau ein bod yn **ymwneud** â phob carfan o'n cymuned yn helpu i sicrhau fod yr holl blant a rhieni sydd angen cefnogaeth yn ei dderbyn a bod gan y plant eu hunain gyfle i gael clywed eu lleisiau

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ymchwil² yn amlygu'r ffaith fod anfantais yn cychwyn "cyn geni ac yn cronni trwy fywyd". Canfuwyd mai anghydraddoldeb ym Mro Morgannwg yw'r prif bennawd sy'n deillio o'r asesiad llesiant, a bod yn rhaid i gamau i leihau anghydraddoldeb gychwyn cyn geni a'u dilyn trwy gydol oes y plentyn. Dim ond wedyn y gellir torri'r cysylltiadau agos rhwng anfantais cynnar a deilliannau gwael trwy gydol oes. Yn gyffredinol, mae gan blant ifanc yn y Fro lefel dda o lesiant. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd yn aml, mae lefel data Bro Morgannwg yn cuddio anghydraddoldeb yn y sir, ac y mae hyn yn wir am ystod o ddangosyddion yng nghyswllt iechyd a datblygiad plant ifanc.

Mae'r BGC felly wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau fod gan bob plentyn y cychwyn gorau mewn bywyd fel maes hanfodol i weithredu ar y cyd lle gallwn adeiladu ar ein cryfderau i gael gwir effaith.

Yn ychwanegol at dystiolaeth sy'n ymwneud â phlant ifanc eu hunain, mae'n bwysig ystyried ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar gyfleoedd mewn bywyd, neu 'benderfynyddion ehangach ein hiechyd a'n llesiant'. Mae profiadau bore oes nid yn unig yn effeithio ar gyfleoedd ein cenedlaeth bresennol mewn bywyd, ond y cenedlaethau a ddaw yn eu sgil hwythau. Dengys ein dystiolaeth mai buddsoddi i sicrhau bod gan ein holl blant y cychwyn gorau mewn bywyd yw'r ffordd orau i atal oblygiadau tymor-hir profiadau gwael yn y blynyddoedd cynnar a gofalu ein bod yn adeiladu unigolion, teuluoedd a chymunedau cryf a gwydn.

Mae modd cysylltu'r amred eang o ddata a ystyriwyd yn yr asesiad oll â phrofiadau a chyfleoedd yn awr ac i'r dyfodol.

Mae Astudiaeth Profiadau Plentynod Andwyol (PPA) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith fod "plant sy'n cael profiad o blentynod straenllyd ac o ansawdd wael yn fwy tebygol o ymddwyn mewn modd sy'n niweidio iechyd yn ystod eu llencyndod a all ynddynt eu hunain arwain at salwch meddwl a chlefydau megis canser, clefyd y galon a diabetes yn nes mewn bywyd." Mae Profiadau Plentynod Andwyol yn bryder nid yn unig o ran iechyd. Mae cael PPA yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o wneud yn wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o droseddu, ac yn y pen draw yn llai tebygol o fod yn aelodau cynhyrchiol o gymdeithas. Rhaid i ni felly gymryd camau i atal achosion gwraidd PPA ac ymateb i anghenion y sawl sydd wedi eu cael.

² Adolygiad Marmot

Ein Tystiolaeth - Canfyddiadau Allweddol

Yn sail o wybodaeth i'n Cynllun Llesiant mae ystod o dystiolaeth a gasglwyd o'r asesiad Llesiant a'r ymarferiad hunanasesu. Dyma'r canfyddiadau allweddol yng nghyswllt yr amcan hwn:

Yn gyffredinol, mae plant ifanc ar draws Bro Morgannwg yn dangos [lefelau da o ddatblygiad](#) yng nghyswllt ymddygiad iechyd o gymharu â'u cymheiriaid ledled Cymru.

Mae'r ganran o blant oedran derbyn ym Mro Morgannwg sydd [dros eu pwysau neu yn ordew](#) wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf a dyma'r raddfa isaf yng Nghymru, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd.

Mae cyfradd is ym Mro Morgannwg o [fabanod isel eu pwysau geni](#) yn is na'r cyfartaledd Cymreig. Gall pwysau geni isel fod yn rhagfynegiad allweddol o anghydraddoldeb iechyd, ac y mae gan ardaloedd ym Mro Morgannwg gyda disgwyliad einioes iach is hefyd â chyfradd uwch o fabanod isel eu pwysau geni na chyfartaleddau'r Fro a Chymru.

Gan y Fro y mae'r nifer is na'r cyfartaledd o [ddannedd pydredig, coll neu gyda llenwadau](#) mewn plant 5 oed yng Nghymru. Fodd bynnag gellir gweld gwahaniaethau yn y Fro ac y mae nifer cyfartalog y plant 5 oed gyda dannedd pydredig, coll neu gyda llenwadau yn uwch yn ardal y Barri nag yn Nwyrain neu Orllewin y Fro.

Mae cyfradd [beichiogrwydd merched yn eu harddegau](#) yn gyson is i ferched dan 16, dan 18 a than 20 oed.

Yn 2015/16 ym Mro Morgannwg, canran y plant [Cyfnod Sylfaen](#) sy'n cyrraedd y deiliant datblygu disgwylidig neu'n uwch ar draws pob maes datblygiad oedd yr ail uchaf ar draws Ardal Consortiwm Addysg Canol y De, a'r ail uchaf yng Nghymru y tu ôl i Sir Fynwy.

Gwnaeth y Fro yn arbennig o dda mewn Mathemateg, lle mae'r Fro yn uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag tynnwyd sylw at y gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y plant hynny sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn y Cyfnod Sylfaen fel maes i wella.

Canfu ein [hunanasesiad](#), i lawer o bartneriaid, y bydd gweithgareddau a wneir yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant ifanc neu eu rhieni er mwyn atal achosion sylfaenol Profiadau Plentyndod Andwyol. Fodd bynnag, yr oedd diffyg trosolwg strategol ar draws y mudiadau yn eu cyfanrwydd yng nghyswllt canoli penodol ar y blynyddoedd cynnar a diffyg gwerthuso effaith gweithgareddau ar y blynyddoedd cynnar a PPA oni fydd hyn yn gysylltiedig ag amodau cyllid grantiau. Dywedodd rhai partneriaid hefyd bod hwn yn faes lle'r oedd angen iddynt ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r modd y gallai eu mudiad gyfrannu at yr amcan.

Beth fyddwn ni'n wneud?

Beth fyddwn ni'n dechrau ei wneud heddiw?

Defnyddio canfyddiadau'r cynllun peilot 1000 Diwrnod Cyntaf i herio a bod yn sail i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Fro i edrych i mewn i'r cyfraniad y gall gwahanol bartneriaid wneud i gefnogi atal ac ymyriad cynnar.

Datblygu agwedd fwy strategol ac arloesol at wella sgiliau rhieni, gan gysylltu gweithgareddau â chwarae a'r amgylchedd naturiol i helpu i gyrraedd mwy o bobl a hybu cysylltiadau â'r amgylchedd a llesiant o oedran cynnar.

Gweithio ynghyd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith PPA ar unigolion a chymunedau yn y Fro. Byddwn yn ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer agwedd gyson sy'n cael ei rhannu ar draws pob sector er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag PPA, systemau cefnogaeth ar gael ac yr atelir achosion sylfaenol PPA.

Adolygu gwasanaethau ar draws partneriaid a gweithio ynghyd i nodi'r cyfraniad y gallwn wneud tuag at roi i bob plentyn y cychwyn gorau mewn bywyd, gan gydnabod y rhan a chwaraeir gan wasanaethau cyffredinol a statudol.

Beth fydd yn cymryd tipyn mwy o amser i ni ei gyflawni?

Adolygu trefniadau amlasiantaethol i gyflwyno gwasanaethau ataliol a statudol i blant a phobl ifanc.

Cydnabod y rhan a chwaraeir gan oedolion ym mywydau plant, edrych i weld sut y gall partneriaid weithio ynghyd i roi'r gefnogaeth iawn a'r gwasanaethau ataliol i oedolion a all fel arall fod mewn perygl o golli eu cartrefi neu fod yn rhan o'r system cyflawnder troseddol trwy, er enghraifft, gam-drin domestig, iechyd meddwl gwael neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Sut beth fydd llwyddiant yn 2023?

Byddwn oll yn deall sut y gall gweithgareddau ein mudiad gyfrannu at roi cychwyn da mewn bywyd i blant a beth fyddai effeithiau tymor hir peidio â gwneud hyn.

Ar draws y Fro bydd mwy o blant yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar.

Gall rhieni ar draws y Fro gael gwybodaeth a gwasanaethau i ddatblygu eu sgiliau o ran magu plant.

Mae rhieni a phlant yn cydnabod gwerth chwarae, bod yn yr awyr agored a'r cyfraniad mae'n wneud i lesiant a datblygiad plant.

Mae cyfeirio at wasanaethau yn fwy ystyrion. Mae asiantaethau yn gwybod pryd mae'n briodol cyfeirio, at ba wasanaethau, a'r deilliant posib.

Yr ydym yn cydnabod effaith PPA ac yn gweithio ynghyd i atal achosion sylfaenol PPA ac ymateb iddynt.

Yr ydym yn deall anghenion holistig pobl ac addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny er mwyn cymryd agwedd fwy ataliol.

Mae'r help iawn ar gael i rieni a phlant ar yr adeg iawn.

Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yn fwy diogel, cryf a gwydn.

“Mae pobl sy'n cael PPA fel plant yn aml yn ceisio magu eu plant eu hunain ar aelwydydd lle mae PPA yn fwy cyffredin. Gall cylch fel hyn o drallod mewn plentyndod gloi cenedlaethau o deuluoedd i mewn i iechyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol am genedlaethau. Yn yr un modd, fodd bynnag, gall atal PPA mewn un genhedlaeth neu leihau eu heffaith fod yn llesol nid yn unig i'r plant hynny ond hefyd genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.” - Astudiaeth Gymreig o Brofiadau Plentyndod Andwyol, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trwy weithio yn gynaliadwy i gyflawni'r amcan hwn	
Cydweithredu	Yr unig ffordd i wneud hyn yw trwy weithio ar y cyd e.e. trin achosion sylfaenol PPA, a chydabod fod gan yr holl bartneriaid gyfrifoldeb i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'r holl blant.
Ymwneud	Bydd gwelliannau i wasanaethau ar sail o ymwneud â'n poblogaeth a thrwy ymwneud yn fwy effeithiol gyda phlant a phobl ifanc
Integreiddio	Mae partneriaid wedi cydnabod yr angen i adolygu sut y cyflwynir gwasanaethau ataliol er mwyn sicrhau gwell integreiddio gwasanaethau ac agwedd fwy holistig.
Atal	Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i atal deilliannau gwael i genedlaethau'r dyfodol trwy roi i bob plentyn y cychwyn gorau mewn bywyd a gwella gwasanaethau ataliol a statudol
Tymor Hir	Partneriaid yn deall pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i bob plentyn ac effaith tymor hir PPA ac wedi blaenoriaethu rhoi cychwyn da mewn bywyd i blant fel un o'n pedwar amcan llesiant.
Fe wnawn y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol	
Cymru Ffyniannus	Bydd gwella darpariaeth blynyddoedd cynnar provision yn gosod y sylfeini ar gyfer cychwyn da mewn bywyd, a gwella cyfleoedd i ennill cymwysterau a sicrhau gwaith da.
Cymru Wydn	Annog gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a'i gyfraniad i'n llesiant o fore oes ymlaen
Cymru Iachach	Hyrwyddo dewisiadau iach i rieni a phlant a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar.
Cymru Fwy Cyfartal	Gweithio i sicrhau fod gan bob plentyn y cychwyn gorau mewn bywyd, waeth beth fo'u cefndir neu lle maent yn byw.
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Torri cylch rhyng-genedlaethau o PPA a digwyddiadau megis camddefnyddio

	cyffuriau, camddefnyddio alcohol a thrais domestig sy'n arwain at gymunedau mwy diogel.
Cymru o Ddiwylliant Bywiog a lle mae'r laith Gymraeg yn Ffynnu	Darparu cyfleoedd i unigolion a theluedd gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae a champau, ac i gydnabod eu manteision i lesiant.
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	Cyfrannu at lesiant byd-eang trwy greu unigolion, theluedd a chymunedau iach, hapus, diogel a gwydn.

DRAFT

Amcan 4: Gwarchod, cyfoethogi a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd

Y Fro 2050: Beth ydym am ei gyflawni?

Rhennir dealltwriaeth am ba mor werthfawr y mae ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd lleol, a sut y maent yn cyfrannu at ein llesiant. Mae ein cyfrifoldeb byd-eang i amddiffyn a chyfoethogi'r amgylchedd at genedlaethau'r dyfodol yn cael ei ddeall ar draws pob sector ac ar draws ein cymunedau. Mae'r Fro yn ardal lle mae'r sector cyhoeddus yn dangos arweiniad cryf ac yn rheoli ei stadau yn gynaliadwy. Mae dealltwriaeth am effaith amgylcheddol y modd mae gwasanaethau yn cael eu cyflwyno a'u cyrchu a'r angen i leihau hyn. Mae'r holl gymuned yn ymwneud ag amddiffyn a chyfoethogi ein hasedau naturiol ac yr ydym wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n symbylu ymddygiad cynaliadwy. Mae cyfraddau uwch o deithio bywiog a chynaliadwy ac ailgylchu, gwell ansawdd aer a dŵr ac ôl troed ecolegol is ar draws y Fro. Mae ymyriadau ar gael i helpu i atal, rheoli a lliniaru effeithiau tymor-hir tywydd eithafol ar Fro oherwydd newid hinsawdd. Gall yr holl gymuned fynd at fannau gwyrdd, rhoi gwerth ar y mannau hyn a chyfrannu tuag at eu cynnal fel y gall pawb weld manteision gallu mynd at amgylchedd a thirwedd sydd mor amrywio, ac sy'n gyfoethog o fywyd gwyllt. Mae'r cyfleoedd a gynigir gan amgylchedd naturiol o ansawdd uchel fel ased mwyaf y Fro yn cael eu gwireddu, ac y mae hyn yn llesol i drigolion ac ymwelwyr; mae twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hyrwyddo ac mae'n cyfrannu at lesiant diwylliannol ac economaidd gwell yn yr ardal.

Trwy amddiffyn, cyfoethogi a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd byddwn hefyd yn cyfrannu tuag at gyrraedd ein hamcanion eraill

- Gall **ymwneud** â'n trigolion helpu i addysgu pobl am bwysigrwydd amddiffyn ein hamgylchedd a gall cyfleoedd i wirfoddoli gynnwys gweithgareddau sydd yn ymwneud â chynnal amgylchedd o safon uchel sydd o les i'r holl drigolion
- Gall sicrhau fod amgylchedd o ansawdd uchel ym mhob ardal yn y Fro helpu i **fynd i'r afael ag anghydraddoldeb** trwy wella llesiant meddyliol mewn ardaloedd difreintiedig ac annog pobl i dreulio amser yn yr awyr agored a bod yn gorfforol fywiog
- Gall amgylchedd o safon uchel roi cyfle i chwarae ac ymarfer corff trwy roi amrywiaeth o fanteision llesiant i helpu i **roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant**

Pam bod hyn yn bwysig?

Yr oedd ymwneud a gynhaliwyd mewn nifer o ddigwyddiadau i fod yn sylfaen i'r asesiad llesiant wedi tynnu sylw at y ffaith fod yr amgylchedd lleol yn hynod bwysig i drigolion sydd yn falch eu bod yn agos at gefn gwlad/glan y môr a mannau gwyrdd. Gwelwyd yr amgylchedd fel un o'r ffactorau pwysicaf o ran llesiant da i'n trigolion a gellir ei weld fel ffactor sylfaenol i'r amrywiaeth o faterion eraill sy'n effeithio ar lesiant.

Mae'r BGC wedi cydnabod mai un o'n hasedau mwyaf yw ein hamgylchedd, fod angen gweithredu ar y cyd i amddiffyn, cyfoethogi a rhoi gwerth arno yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan sicrhau bod Bro Morgannwg yn gyfrifol yn fyd-eang.

Amlygwyd pwysigrwydd yr amgylchedd yn yr asesiad llesiant nid yn unig fel ased i drigolion ac ymwelwyr i'w fwynhau ond fel darparwr gwasanaethau pwysig hefyd.

- Mae arfordiroedd a glan y môr yn rhoi swyddi, bwyd a chyfleoedd hamdden, cynhyrchu ynni a mwynhau bywyd gwylt, tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol.
- Gall anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill a'u cynefinoedd chwarae llawer rhan mewn ecosystemau a phrosesau sydd yn sail i gynhyrchu bwyd, dŵr glân a pheillio.
- Mae coetiroedd a choed yn helpu i reoli ein hinsawdd, rhoi incwm a swyddi, storio carbon, cyfrannu at leihau llifogydd a gorlif afonydd, diogelu priddoedd, gwella ansawdd aer, lleihau sŵn a rheoleiddio plaon a chlefydau.
- Gall hamdden yn yr awyr agored gyfrannu'n sylweddol at iechyd corfforol a llesiant meddyliol.
- Mae mynediad at gefn gwlad, dŵr a mannau gwyrdd yn agos at lle mae pobl yn byw yn gynyddol bwysig, gan ddarparu manteision iechyd, economaidd a chymdeithasol.

Tynnodd yr asesiad sylw at nifer o risgiau i amgylchedd y Fro sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ac ansawdd gwael yr aer, ac y mae'r BGC felly wedi amlygu'r pwysigrwydd o weithio ynghyd i liniaru, rheoli neu ddatrys y risgiau hyn dros y tymor byr, canol a hir. Mae angen i ni ddeall yn well y symbyliadau am y ffyrdd mae pobl yn ymddwyn, a gallwn wneud hynny yn unig trwy weithio ynghyd gyda'n trigolion i sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hamgylchedd i'r oesoedd a ddêl.

Asedau amgylcheddol y Fro

- 27 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ADdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Aber yr Afon Hafren, RAMSAR ac ACA, ACA Bae Dunraven a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Merthyr Mawr gerllaw.
- 740 adeilad rhestredig, dros 100 o Henebion Rhestredig, 39 Ardal Gadwraeth, 18 ardal sydd ar y Gofrestr o Dirweddau neu Barciau a Gerddi Hanesyddol, a 2 ardal ar Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.
- Pedwar ar bymtheg o barciau, saith â statws baner werdd sydd yn nod rhagoriaeth, gyda mwynderau da ac ymwneud y gymuned mewn parciau.
- Dau Barc Gwledig, Parc Porthceri ar gyrion y Barri a Llynnoedd Cosmeston ar gyrion Penarth. Mae'r parciau yn cynnig dros 200 hectar o goetiroedd, gweirgloddiau a thraethau.
- 10 safle rhandir dan reolaeth y Cyngor (8 yn y Barri a 2 yng Ngorllewin y Fro).
- Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ymestyn am 14 milltir, o Aberddawan i Borthcawl gyda chyfleoedd i gerddwyr a beicwyr.
- Dwy ganolfan ailgylchu, un yn y Barri a'r llall yn Llandŵ.
- Mae gan ddau o draethau'r Fro statws baner las a chafodd pedwar wobrwon glan môr.

Ein Tystiolaeth - Canfyddiadau Allweddol

Yn sail o wybodaeth i'n Cynllun Llesiant mae ystod o dystiolaeth a gasglwyd o'r asesiad llesiant a'r ymarferiad hunanasesu. Dyma'r canfyddiadau allweddol yng nghyswllt yr amcan hwn:

Mae gan yr ardal amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella llesiant economaidd yr ardal, gan gynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a mannau glan môr traddodiadol; cefn gwlad a pharciau gwledig deniadol; nodweddion hanesyddol unigryw; gweithgareddau ar dir a môr - golff, pysgota môr, seiclo, syrffio a marchogaeth; a rhwydwaith sefydledig o lwybrau cerdded.

Dim ond 8.2% o'r sir sydd dan goetiroedd ac y mae hyn yn is na'r cyfartaledd Cymreig o 14%.

Mae Asesiad Risg Newydd Hinsawdd y DU yn tynnu sylw at nifer o risgiau allweddol i Gymru sydd ag oblygiadau i Fro Morgannwg. Yn eu mysg mae; gostyngiadau yn llif afonydd a dŵr sydd ar gael yn yr haf, ond cynnydd hefyd mewn llifogydd, esblygu'r arfordir, cynnydd yn y risg o blâu a chlefydau a newid yn amodau'r pridd a bioamrywiaeth.

Gall y posibilrwydd o godiad yn lefelau'r môr o ganlyniad i newid hinsawdd fod yn fygythiad i'n hamgylchedd arfordirol yn ogystal â threfi a phentrefi ar yr arfordir. Er bod gan Fro Morgannwg ganran sydd fymryn yn is na'r cyfartaledd o eiddo sydd mewn perygl o lifogydd, o ystyried y mathau hyn o eiddo yn ôl lefel y risg, mae canran yr eiddo mewn perygl o du llifogydd sydd ar risg uchel yn uwch yn y Fro na'r cyfartaledd Cymreig.

Amcangyfrifir bod ôl troed ecolegol Cymru yn 10.05 miliwn hectar byd-eang (gha), sydd yn fras 5 gwaith maint Cymru, neu 3.28 hectar byd-eang y pen (gha/c). Mae Bro Morgannwg o fewn y tri awdurdod lleol uchaf yng Nghymru gyda'r ôl-troed ecolegol mwyaf, gyda Cheredigion a Phowys.

Er bod ansawdd aer ym Mro Morgannwg yn cydymffurfio â rheoliadau i amddiffyn iechyd dynol ac yn cwrdd â'r amcanion ansawdd aer perthnasol, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro gan mai yn y Fro y mae un o'r lefelau uchaf o lygredd aer o waith dynol yng Nghymru ac y mae'n uwch na'r cyfartaleddau Cymreig, Albanaidd, a rhai Gogledd Iwerddon. Mae sgoriau allyriadau aer yn uwch o lawer yn ne a dwyrain y sir, gan gynnwys y Barri, lle mae dwyseddau poblogaeth, swm y traffig ac agosrwydd at ddiwydiannau trwm yn uwch nac yn rhannau mwy gwledig y sir. Mae allyriadau aer hefyd yn effeithio'n anghymesur ar

gymunedau mwy difreintiedig y Fro a all waethygu lefelau anghydraddoldeb iechyd sydd eisoes yn uchel trwy gynyddu lefelau o glefydau anadlu a chlefydau eraill.

Gall **mannau gwyrdd a choed** gyfrannu at lesiant meddyliol a chorfforol ond nid ydynt yn wastad yn agos at y bobl sydd eu hangen fwyaf, ac y mae diffyg mynediad i'w weld yn arbennig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig.

Er mai amgylchedd a safle'r fro yw un o'i asedau mwyaf, mae heriau hefyd, gyda naw o AUDdI y Fro o fewn y 10% AUDdI mwyaf difreintiedig ym **mharth amgylchedd Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru**

Wrth gynnal yr **ymarferiad hunanasesu**, yn gyffredinol sgoriodd y partneriaid eu hunain yn uchel o ran polisi a gweithgareddau wedi eu hanelu at warchod, cyfoethogi a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd er yn cydnabod y gallwn oll wneud mwy nac a wnawn ar hyn o bryd. Cydnabuwyd y bydd nifer o bartneriaid yn cynnal gweithgareddau i hybu ymddygiad cynaliadwy, er nad yw'r rhain wedi eu dwyn at ei gilydd ar hyn o bryd. Yr oedd sgoriau uchel ar draws y bwrdd o ran monitro effaith ein polisiâu a'n gweithgareddau. Amlygwyd, fel mudiadau cyhoeddus a thrydydd sector, y gall sicrhau bod ein harferion a'n stadau ni ein hunain yn gynaliadwy gael effaith enfawr ar amgylchedd y Fro.

Beth fyddwn ni'n wneud?

Beth fyddwn ni'n dechrau ei wneud heddiw?

Cyflwyno ymrwymiad ar y cyd i droi ein stadau yn “wyrdd” trwy'r canlynol:

- Datblygu gwell dealltwriaeth o'n statws carbon net ac ymchwilio i gyfleoedd i leihau ein heffaith carbon (e.e. effeithlonrwydd ynni, ffynonellau o ynni adnewyddol ac allyriadau o'n gweithgareddau a'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu prynu)
- Adolygu sut yr ydym yn rheoli ein manau agored i wneud y mwyaf o'u cyfraniadau i wytnwch ecosystemau a chyfoethogi bioamrywiaeth (e.e. rheoli o ran peillio a mathau eraill o fywyd gwyllt)
- Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd dŵr
- Deall a lliniaru ein heffeithiau ar ansawdd aer

Hyrwyddo teithio bywiog trwy ddatblygu negeseuon sy'n cael eu rhannu gyda staff a chwsmeriaid a darparu cyfleusterau i roi dewisiadau teithio bywiog. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd â Dinas-Ranbarth y Brifddinas.

Beth fydd yn cymryd tipyn mwy o amser i ni ei gyflawni?

Gweithio gyda Dinas-Ranbarth y Brifddinas i hyrwyddo a hwyluso teithio mwy cynaliadwy yn y Fro ac ar draws y rhanbarth a, lle bo angen, llobio a dylanwadu ar ddarparwyr cludiant am well dewisiadau cludiant cyhoeddus.

Adolygu asedau tir cyhoeddus a gwneud y mwyaf o'u potensial am ddefnydd y gymuned a'u gwerth fel adnodd amgylcheddol.

Cynnal dadansoddiad pellach o faterion lleol a chenedlaethol a thystiolaeth ac arferion da ynghylch y ffordd orau i ymdrin â'r materion hyn, datblygu gwell dealltwriaeth ar draws ein mudiadau o faterion amgylcheddol, effaith y modd yr ydym yn gweithio/cyflwyno gwasanaethau, a chysylltiadau rhwng amgylchedd gwael a chymunedau difreintiedig.

Mae'r BGC yn gweithio gyda busnesau a diwydiannau lleol i fanteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd ein hamgylchedd e.e. trwy dwristiaeth ac amaethyddiaeth, ac ar yr un pryd yn cymryd camau i leihau effeithiau negyddol a cheisio cyfleoedd i wella amgylchedd y Fro.

Partneriaid i weithio gyda'i gilydd i ymchwilio sut y gall polisïau ac arferion caffael gynnal yr economi leol ac amddiffyn yr amgylchedd lleol.

Sut beth fydd llwyddiant yn 2023?

Gwell dealltwriaeth ar draws ein mudiadau a thrigolion y Fro o effaith ein gweithredoedd ar yr amgylchedd a faint o ased yw ein hamgylchedd lleol.

Partneriaid yn rhannu arbenigedd a gwybodaeth i gefnogi ein gilydd i leihau eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo modd.

Bydd pob aelod o'r BGC wedi adolygu a/neu fabwysiadu polisiau sydd yn dangos ymrwymiad i leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a hybu ymddygiad cadarnhaol.

Bydd gan ymwelwyr, gweithwyr a thrigolion y Fro fwy o ddewisiadau o ran teithio bywiog a chynaliadwy.

Bydd BGC y Fro yn rhoi arweiniad cryf o ran pwysigrwydd yr amgylchedd i bob agwedd o lesiant.

“Wrth i ni ddeall yn well ein cysylltiadau â bioamrywiaeth, ecosystemau a’r gwasanaethau maent yn ddarparu, daw yn fater o gyfiawnder cymdeithasol i sicrhau bod ein patrymau byw yn gynaliadwy ac yn sensitif i gyfyngiadau’r byd o’n cwmpas a’n bod yn gweithredu ein cyfrifoldeb i genedlaethau’r dyfodol.” – Cenhedloedd Unedig

Trwy weithio yn gynaliadwy i gyflawni'r amcan hwn	
Cydweithredu	Cydweithredu i rannu arbenigedd a gwybodaeth i ddeall yn well sut i ymdrin â materion amgylcheddol ac effeithiau'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn cyflwyno gwasanaethau
Ymwneud	Ymwneud a'n cymunedau i gynyddu dealltwriaeth o'r ffyrdd y gallwn oll amddiffyn amgylchedd y Fro
Integreiddio	Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i wahanol bolisiau ac arferion, e.e. caffael, a chymryd agwedd fwy strategol at leihau ein heffaith ar yr amgylchedd
Atal	Deall sut y gallwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd i atal materion rhag gwaethygu
Tymor Hir	Sicrhau na fydd unrhyw weithgareddau a wnawn yn cael effaith negyddol tymor hir ar ein hamgylchedd
Fe wnawn y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol	
Cymru Ffyniannus	Edrych i mewn i gyfleoedd ar draws y sector cyhoeddus i leihau ein heffaith carbon a gweithio gyda'r sector preifat i wneud y mwyaf o fanteision economaidd ein hamgylchedd lleol mewn modd sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol.
Cymru Wydn	Adolygu'r modd yr ydym yn rheoli ein mannau agored i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i wytnwch yr ecosystem a gwella bioamrywiaeth
Cymru Iachach	Cydnabod y cyfleoedd mae ein hamgylchedd naturiol yn ddarparu i wella lles corfforol a meddyliol a gwneud y mwyaf o botensial ein hasedau tir at ddefnydd y gymuned.
Cymru Fwy Cyfartal	Gwneud y Fro yn ardal lle gall yr holl drigolion gyrchu mannau gwyrdd a'r manteision llesiant sy'n deillio o hynny waeth lle maent yn byw.
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Hybu teithio mwy cynaliadwy a bywiog i gysylltu cymunedau ar draws y Fro a lleihau unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd.
Cymru o Ddiwylliant Bywiog a lle mae'r	Defnyddio'r amgylchedd i roi cyfleoedd

Iaith Gymraeg yn Ffynnu	hygyrch a fforddiadwy i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol a hamdden, gan wneud y mwyaf o botensial asedau tir cyhoeddus at ddefnydd y gymuned
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	Lleihau ôl troed ecolegol y Fro a'r effaith gaiff hyn ar amgylchedd y byd

DRAFT

Gawn ni Air

Yn sail i asesiad Llesiant Bro Morgannwg yr oedd amrywiaeth o weithgareddau ymwneud ac ymgynghori, a gyrhaeddodd gyfanswm o fwy na 1,000 o drigolion ar hyd a lled y Fro. Er mwyn parhau â'r sgysiau hyn ac er mwyn gofalu ein bod wedi deall a gweithredu ar y materion a amlygwyd yn yr asesiad Llesiant byddwn yn ymwneud ac yn ymgynghori ar y drafft o Gynllun Llesiant dan faner Gawn ni Air.

Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal cyfnod 12 wythnos o ymwneud ffurfiol ar y drafft o gynllun Llesiant. Bydd y cyfnod ymwneud hwn yn parhau i adeiladau ar y gweithgareddau y buom yn wneud fel rhan o'r broses o symud o'r asesiad at y Cynllun. Nodwyd ein pedwar Maes Amcan trwy'r Asesiad, ac er mwyn gwneud yn sicr mai'r rhain yw'r meysydd iawn i ganolbwyntio arnynt, yr ydym wedi dal ati i siarad â'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac arbenigwyr. Er mwyn sicrhau bod y BGC yn nodi camau fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i lesiant yn y Fro. Cynhaliodd y BGC nifer o wahanol weithgareddau i fod yn sail o wybodaeth i ddrafftio'r Cynllun Llesiant.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

Cynhadledd Llais y Disgybl yn y Fro	- Ymwneud â chynrychiolwyr Cynghorau Ysgol o'r Fro.
Gweithdai Hunanasesu BGC	- Gweithio gydag ymgynghorwyr i asesu ein perfformiad presennol yn erbyn ein pedwar Amcan.
Gweithdai Arbenigol BGC	- Gweithiodd swyddogion arbenigol o bartneriaid a rhanddeiliaid gyda'i gilydd i nodi lle gall y BGC ychwanegu gwerth ac i ddatblygu'r cyfleoedd hyn yn weithredoedd.
Gweithdy BGC	- Yn dilyn y gweithdai hyn, cynhaliodd y BGC weithdy i weithio trwy'r gweithredoedd hyn a chytuno ar beth ddylid ei gynnwys yn y drafft o Gynllun Llesiant.
Sgysiau gyda phartneriaid y BGC	- Rhoddwyd prawf wedyn ar yr Amcanion a'r Camau a nodwyd trwy sgysiau unigol gyda phartneriaid y BGC er mwyn gofalu bod modd cyflawni'r holl gamau arfaethedig ac y gall yr holl bartneriaid gyfrannu at eu cyflwyno.

Parhau â'r sgwrs ...

Er mwyn hwyluso sgwrs ystyrllon ar y drafft o Gynllun Llesiant sy'n dal amrywiaeth o wahanol leisiau, bydd yn rhaid ymgynghori ac ymwneud yn eang a llydan o ran cwmpas a chynulleidfa. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn mynd allan i nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau, ac yn eu cynnal. Lle bo modd, byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Cynllun Ardal dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i asio ynghyd ein gweithgareddau ymwneud. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed ar y cyd i'r asesiad Llesiant ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth, ac yn cydnabod y berthynas agos rhwng y cynllun ardal a'r cynllun Llesiant i wella Llesiant a chanolbwyntio ar anghenion lleol.

Er mwyn sicrhau bod ein hymwneud yn ddiddorol ac yn rhoi gwybodaeth, byddwn yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn ystod a thu hwnt i'r broses 12 wythnos o ymgynghori ffurfiol. I ymwneud yn llwyddiannus â'n cymunedau, byddwn yn strwythuro ein rhaglen o weithgareddau o gwmpas pum maes allweddol:

Arolwg Ar-lein	- Gan adeiladu ar lwyddiant yr Arolwg Llesiant Gawn ni Air a gynhaliwyd i fod yn sail o wybodaeth i'r asesiad Llesiant, bydd yr Arolwg hwn yn rhoi prawf ar yr Amcanion a'r Camau a osodir allan yn y Cynllun Drafft.
Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol	- Ochr yn ochr â'r Arolwg, byddwn yn cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio Facebook a Twitter i barhau'r sgwrs a gychwynwyd gennym trwy'r broses asesu er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau iawn gennym.
Gweithgareddau Ymwneud	- Yn ychwanegol at ein gweithgareddau ar-lein, er mwyn sicrhau ein bod yn casglu barn gan gymaint o bobl ag sydd modd, byddwn yn cynnal ac yn mynychu gweithgareddau a grwpiau ledled y Fro. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau ymwneud yn ein tair ardal gymuned, siarad gyda grwpiau fforwm a mynychu gwahanol ddigwyddiadau.
Gweithdai Rhanddeiliaid	- Er mwyn gwarantu bod y drafft o Gynllun Llesiant yn adnabod y blaenoriaethau allweddol ac i wella Llesiant yn y Fro byddwn yn cynnal Gweithdai Rhanddeiliaid, gan wahodd y mudiadau hynny fu'n ymwneud â datblygu'r asesiad Llesiant i drafod ein Cynllun Drafft.
Ymgynghori Ffurfiol	- Er mwyn sicrhau bod gan y partneriaid gyfle i wneud sylwadau ar yr amcanion a'r camau a osodir allan yn y drafft o Gynllun Llesiant, byddwn yn dosbarthu'r cynllun i'r Ymgynghoreion Statudol ac yn amlygu'r gwahanol ffyrdd o roi adborth am y Cynllun Drafft.

Monitro ein Perfformiad

Un o'n heriau fydd dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud a sut, trwy gyflwyno ein Cynllun Llesiant, y byddwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i lesiant pobl. Bydd y BGC yn gosod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith fydd yn ategu ein gwaith cyson i wella ein hasesiad llesiant ac yn dangos sut yr ydym yn cyflwyno yn erbyn ein deilliannau a ddatganwyd ac yn gweithio tuag at ein gweledigaeth am 2050 i'r Fro.

Er mwyn dal yr amrywiaeth eang o waith a wneir i gyflwyno ein Cynllun, bydd y BGC yn datblygu cyfres o ddangosyddion craidd. Bydd y gyfres hon o ddangosyddion yn adlewyrchu ehangder y wybodaeth a gynhwysir yn yr asesiad llesiant a hefyd y dangosyddion llesiant cenedlaethol. Fe fyddwn yn gosod trefniadau ar waith i fonitro cynnydd trwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio ystod o wybodaeth feintiol ac ansoddol.

Bydd cynnydd o ran cyflawni yn erbyn y Cynllun Llesiant a'r gwaith ehangach a wneir trwy'r BGC yn cael ei gynnwys mewn Adroddiad Cynnydd Blynyddol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dweud fod yn rhaid i'r BGC baratoi a chyhoeddi Adroddiad Cynnydd Blynyddol ddim hwyrach na phedwar mis ar ddeg wedi cyhoeddi eu Cynllun Llesiant ac wedi hynny, ddim hwyrach na blwyddyn wedi cyhoeddi pob adroddiad blaenorol.

Cyflwynir yr Adroddiadau Cynnydd Blynyddol i'r BGC ac fe'i cyhoeddir ar wefan y BGC i roi trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan y BGC dros y flwyddyn. Hefyd, anfonir copi o Adroddiadau Cynnydd Blynyddol pob BGC at y canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Cabinet a Phwyllgorau Craffu Cyngor Bro Morgannwg